| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | 8 Rhagfyr 2011 |
| **Pwnc** | Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol: Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig – Nodyn Cyfarwyddyd 14: Addasiadau mewn Ardaloedd Gwledig. |
| **Deilydd Portffolio** | Comisiynydd Alex Aldridge |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Nia Haf Davies |
| **Swyddog Cyswllt** | Nicholas Philip Williams |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Ceisio cael cymeradwyaeth Comisiynwyr i fabwysiadu'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol a fu allan yn ddiweddar ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ac sydd hefyd wedi cael ei sgriwtineiddio a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor.

Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig yn rhan o'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd: 'Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig' ac maent yn disodli'r nodyn canllaw blaenorol 'Adeiladau yn y Cefn Gwlad'.

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Ym Mai 2008, mabwysiadodd y Cyngor y Canllawiau Cynllunio Atodol newydd o'r enw 'Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig'. Mae'r 'ddogfen' yn cynnwys nifer o daflenni unigol sy'n rhoi cyngor cryno ar wahanol faterion dylunio sy'n gyffredin mewn ceisiadau cynllunio.

Teitl un o'r nodiadau canllaw yw 'Adeiladau yn y Cefn Gwlad'. Mae'r nodyn yn delio'n bennaf gydag addasu adeiladau allanol mewn ardaloedd gwledig a'u troi yn anheddau. Ers mabwysiadu'r Canllawiau Dylunio yn 2008, defnyddiwyd y nodyn fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau newydd am gynlluniau addasu.

Daeth yn amlwg dros y 12 i'r 18 mis diwethaf y dylid diweddaru'r nodyn er mwyn rhoi canllawiau manylach a diamwys ar yr hyn sy'n dderbyniol o ran dyluniad.

Yn Ynys Môn, ystyrir yn gyffredinol bod yr enghreifftiau gorau o'r adeiladau allanol sy'n addas i'w haddasu eisoes wedi eu datblygu a bod ceisiadau newydd, mewn gwirionedd, bellach yn ymwneud â'r hyn sy'n weddill o fewn yr amgylchedd adeiledig. Mae hyn wedi arwain at faterion mewn perthynas ag ansawdd y dyluniadau mewn amryfal gynlluniau addasu.

| A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion |
|---|
| Mewn cyfarfodydd mewnol, codwyd materion fel goddefiannau canrannol ar gyfer gwaith dymchwel ac estyniadau, ynghyd â pha mor addas yw gwahanol fathau o adeiladau ar gyfer cynlluniau addasu. |

| B – Ystyriaethau |
|---|
| Mae'n arfer safonol i ymgynghori'n fewnol ar ddogfennau canllawiau cynllunio atodol a hynny er mwyn cael barn broffesiynol aelodau perthnasol o staff.<br><br>Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori deufis gyda'r cyhoedd hefyd a rhoddwyd cyfle i gyrff allanol a'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ar y ddogfen.<br><br>Credir bod y fersiwn ddiwygiedig hefo'r newidiadau a gynigir yn gadarnach ac yn rhoi mwy o wybodaeth na'r fersiwn flaenorol yn dilyn yr ymgynghori mewnol ac allanol eang. |

| **C – Goblygiadau ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | D/B |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | D/B |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | D/B |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | D/B |
| **5** | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | D/B |
| **6** | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | D/B |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | D/B |
| **8** | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | D/B |
| **9** | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | D/B |

| | | |
|---|---|---|
| **10** | **Economaidd** | D/B |
| **11** | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | D/B |
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | D/B |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | D/B |

**CH – Crynodeb**

Yn dilyn y cyfnodau ymgynghori eang yn fewnol ac yn allanol, mae'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol bellach yn barod i'w fabwysiadu fel y gellir ei ddefnyddio fel ystyriaeth o bwys pan yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

**D – Argymhelliad**

Yng ngoleuni'r newidiadau diweddar i drefniadau pwerau gweithredol y Cyngor, teimlir mai priodol yw i'r fersiwn Newidiadau Arfaethedig o'r ddogfen gael ei chyflwyno i'r Comisiynwyr am eu cymeradwyaeth.

**Enw awdur yr adroddiad:** Nia Haf Davies
**Teitl Swydd:** Rheolwr Cynllunio (Polisi) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd
**Dyddiad:** 8 Rhagfyr 2011

**Atodiadau:**

Canllawiau Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig – Nodyn Canllaw 14: Addasiadau mewn Ardaloedd Gwledig.

**Papurau Cefndirol:**

Dim.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | Canllawiau Cynllunio Atodol<br>Canllawiau Dylunio ar Gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig |
|---|---|
| Nodyn Canllaw | Addasiadau mewn Ardaloedd Gwledig |
| Gwasanaeth Cynllunio | Fersiwn Newidiadau Arfaethedig |

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL
CANLLAWIAU DYLUNIO AR GYFER YR AMGYLCHEDD TREFOL A GWLEDIG

NODYN CANLLAW: 14

# ADDASIADAU MEWN ARDALOEDD GWLEDIG


Cyngor Sir Ynys Môn
Gwasanaeth Cynllunio
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW




| CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | Ffôn | (01248) 752428 |
|---|---|---|
| | Gwefan | www.ynysmon.gov.uk |

## 1.0 Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig

1.1 Mae'r daflen hon yn un o gyfres o nodiadau cyfarwyddyd sy'n ffurfio'r ddogfen Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol 'Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig', sydd yn ystyriaeth o bwys yn y broses o wneud penderfyniadau.

1.2 Efallai y bydd angen cyfeirio at nifer o'r taflenni gyda rhai ceisiadau cynllunio.

1.3 Fe all y cyfarwyddyd yn y Cyfarwyddyd Dylunio gael ei ddiwygio gan ychwanegu ato yn y dyfodol. Gofynnwch yn y dderbynfa, os gwelwch yn dda, am y rhestr ddiweddaraf o'r nodiadau cyfarwyddyd yn y gyfres. Mae'r nodyn hwn yn disodli Nodyn Canllaw 14 – Adeiladu yng Nghefn Gwlad, a gafodd ei fabwysiadu fis Mawrth 2008.

## 2.0 Cyflwyniad

2.1 Mae rhan helaeth o Ynys Môn yn ardal wledig gydag ystod eang o adeiladau yn y cefn gwlad nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio i'w pwrpas gwreiddiol. Mae llawer o'r adeiladau hyn yn cael eu hystyried fel rhai sydd â rhinweddau pensaernïol ac/neu hanesyddol o bwys. Oherwydd nad ydynt yn cael eu defnyddio, mae nifer ohonynt mewn perygl ac mae'r perygl hwnnw'n cynyddu. Mae addasu adeiladau o'r fath yn rhoi cyfle iddynt gael eu diogelu a'u dwyn yn ôl i ddefnydd buddiol.

2.2 Ni chaniateir i waith i addasu ac ailddefnyddio adeiladau mewn ardaloedd gwledig gael effaith andwyol ar eu cymeriad gwreiddiol nac ar yr amgylchedd o'u cwmpas. Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 'Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy' yn dweud: *"Dylai cynigion i addasu adeiladau barchu'r dirwedd ac arddulliau a deunyddiau adeiladu lleol. Os cyflwynir cais cynllunio ar gyfer ailddefnyddio adeilad sydd, ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, yn cael ffaith andwyol sylweddol ar y dirwedd o ran amwynder gweledol, mae'n bosibl y bydd yn briodol gosod amodau, mewn cysylltiad ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r adeiladwaith, er mwyn sicrhau gwelliant i edrychiad allanol yr adeilad".*

2.3 Efallai y bydd y Cyngor ar adegau yn gwneud penderfyniad ar ailddefnyddio adeiladau o dan hawliau datblygu amaethyddol a ganiateir er mwyn asesu a oes cyfiawnhad amaethyddol gwirioneddol dros addasu strwythur ar gyfer defnydd domestig neu fasnachol. Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 'Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn dweud: *"Dylai awdurdodau cynllunio edrych yn arbennig o ofalus ar geisiadau i ailddefnyddio adeiladau a godwyd dan hawliau datblygu amaethyddol a ganiateir. Dylent fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod yr adeilad wedi torri rheolau adeiladu pan oedd sylwedd yr adeilad wedi'i gwblhau, gan nad oedd cyfiawnhad amaethyddol gwirioneddol dros ei godi".*

## 3.0 <u>Sgôp Cynlluniau Addasu</u>

3.1 Tra bod cynlluniau addasu yn arferol yn gysylltiedig ag adeiladau traddodiadol, mae yna sgôp i newid defnydd yr adeiladau mwy modern lle gellir sefydlu bod y defnydd cyfredol bellach wedi dod i ben.

3.2 Bydd y Cyngor yn archwilio ceisiadau i ailddefnyddio adeiladau modern yn ofalus iawn er mwyn sicrhau bod yna resymau cynllunio cadarn dros eu haddasu'n unedau preswyl a bod y defnydd cyfredol ohonynt yn wirioneddol wedi dod i ben.

3.3 Efallai y byddir yn edrych yn ffafriol ar gynlluniau i addasu adeiladau y mae'r defnydd gwreiddiol ohonynt wedi dod i ben ac a allai wella edrychiad yr ardal. Efallai y bydd yna achlysuron lle bo rhinwedd bensaernïol i adeilad modern a'i fod yn werth ei addasu i ddefnydd arall.

3.4 Fodd bynnag, efallai y ceir enghreifftiau lle nad yw rhai adeiladau'n cael eu hystyried yn addas i'w haddasu. Mae adeiladau o'r fath yn cynnwys rhai nad ydynt yn strwythurol gadarn, neu rai a adeiladwyd dros dro, neu sydd yn ddolur llygad y dylid eu dymchwel er mwyn gwella ansawdd esthetig yr ardal, neu rai a leolwyd mewn ardaloedd lle ceir risg llifogydd ac adeiladau sy'n cadw eu swyddogaeth wreiddiol e.e. garejys preswyl sy'n cael eu defnyddio i storio cerbydau.

3.5 Gydag unrhyw gais i addasu adeilad modern fel garej breswyl, rhaid cael datganiad ysgrifenedig o gyfiawnhad i sefydlu bod ei ddefnydd cyfredol yn wirioneddol wedi dod i ben.

## 4.0 Rhestr o'r Anghenion Sylfaenol

4.1 Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi manylion am y wybodaeth sy'n rhaid ei hanfon gyda chais cynllunio llawn ar gyfer cynlluniau i addasu.

- Arolwg strwythurol llawn a dyluniadau manwl yn cynnwys casgliadau'r arolwg.  Nid yw arolwg gweledol yn ddigonol.
- Datganiad, Dyluniad a Mynediad.
- Manylion am y deunyddiau sydd i'w defnyddio yn y cynllun arfaethedig e.e. llechi Cymreig traddodiadol, ffenestri sash coed ac ati.
- Manylion am ailadeiladu ac adeiladu o'r newydd yn cael ei ddangos ar y cynlluniau a gyflwynwyd.
- Arolwg ac archwiliad ecolegol.
- Croestoriadau presennol ac arfaethedig.
- Lefelau'r llawr presennol ac arfaethedig ac uchder y to presennol ac arfaethedig.
- Deunyddiau presennol
- Cynllun lleoliad.
- Ffotograffau o'r strwythur presennol a'r ardal o'i gwmpas.
- Cadarnhad nad yw'r safle o fewn ardal risg llifogydd TAN 15.

## 5.0 Polisi 55 – Addasiadau (Cynllun Lleol Ynys Môn)

5.1 Bydd caniatâd yn cael ei roddi i droi adeilad sydd eisoes yn bod, a hwnnw heb fod mewn pentref nac ar gyrion pentref, yn dy annedd neu lety gwyliau, os yw'r :

i. Adeilad yn ddigon sad a chadarn ac yn un y mae modd ei addasu heb wneud gwaith adeiladu newydd a sylweddol neu heb godi estyniad sy'n cyfateb i godi tŷ newydd.
ii. Nodweddion dymunol yr adeilad yn cael eu diogelu ac lle mae'r nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol yn cael eu cadw.
iii. Gwaith addasu yn adlewyrchu cymeriad, graddfa a gosodiad yr hen adeilad ac yn golygu gwaith altro bychan yn unig yn allanol, onid oes modd dangos y bydd gwedd yr adeilad yn cael ei wella'n sylweddol.

iv. Cynnig, gan gynnwys y libart ynghlwm wrtho a'r gwasanaethau, ddim yn ymwthio'n annymunol i'r tirlun nac yn amharu ar brydferthwch y cyffiniau.
v. Darpariaeth ar gyfer mynedfa, cyfleusterau parcio, llecyn agored a threfniadau carthffosiaeth i gyd yn foddhaol.

## 6.0 Meini Prawf Polisi 55

6.1 i. Adeilad yn ddigon sad a chadarn ac yn un y mae modd ei addasu heb wneud gwaith adeiladu newydd a sylweddol neu heb godi estyniad sy'n cyfateb i godi tŷ newydd.

- Rhaid i'r holl brif lety fod wedi'i gynnwys o fewn y troedbrint gwreiddiol gydag unrhyw estyniadau ar gyfer ystafelloedd ychwanegol yn unig.
- Dylid cael arwynebedd llawr sydd o leiaf 40m$^2$ yr uned o fewn yr adeilad sy'n bodoli i ddarparu safon dderbyniol o lety preswyl. Efallai y ceir achosion lle y gall yr arwynebedd llawr i adeiladau defnydd gwyliau fod yn llai na 40m$^2$.
- Rhaid cadw gwaith dymchwel unrhyw waliau sy'n bodoli i lawr i'r eithaf. Mewn achosion lle mae'r gwaith o ddymchwel y waliau presennol yn fwy na 25%, rhaid cyflwyno datganiad ysgrifenedig o gyfiawnhad.
- Rhaid osgoi lefelau gormodol o ddymchwel elfennau sy'n strwythurol gadarn.
- Byddai'n well pe bai strwythur y to yn ei le ond nid yw hyn yn hanfodol oherwydd fe ellir ystyried adeiladau sydd gyda rhan o do neu heb do o gwbl ar gyfer eu haddasu. Ni ddylid altro uchder y grib na goleddf y to arfaethedig yn sylweddol.
- Rhaid i estyniadau fod yn eilradd i'r strwythur gwreiddiol.

6.2 ii. Nodweddion dymunol yr adeilad yn cael eu diogelu ac lle mae'r nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol yn cael eu cadw.

- Rhaid i gynlluniau fabwysiadu'r egwyddor o addasu'r adeilad yn hytrach na newid ei edrychiad yn fawr er mwyn gweddu i'r defnydd newydd.
- Rhaid i gynlluniau addasu gadw nodweddion nad ydynt bellach yn cyflawni unrhyw ddyletswydd fel grisiau neu gilfachau newydd fel y gellir deall beth oedd defnydd gwreiddiol yr adeilad.

- Rhaid cadw ffenestri a drysau traddodiadol neu gynhenid, neu eu trwsio a'u hail ddefnyddio lle bo hynny'n bosibl. Lle y bernir bod angen gosod ffenestri a drysau newydd neu rai yn lle'r lleill, rhaid iddynt fatsio'r rhai gwreiddiol.
- Pan yn gwneud gwaith altro mewnol, mae'n bwysig bod cymaint ag sy'n bosibl o'r ffabrig gwreiddiol yn cael ei gadw, a hefyd unrhyw nodweddion arbennig o ddiddordeb.

6.3 <u>iii. Gwaith addasu yn adlewyrchu cymeriad, graddfa a gosodiad yr hen adeilad ac yn golygu gwaith altro bychan yn unig yn allanol, onid oes modd dangos y bydd gwedd yr adeilad yn cael ei wella'n sylweddol.</u>

- Rhaid ailddefnyddio agoriadau sydd yno'n barod er mwyn cadw cymeriad yr adeilad ac i leihau effaith unrhyw waith newydd.
- Rhaid gochel rhag creu unrhyw agoriadau newydd gan ystyried cymesuredd cyffredinol yr adeilad.
- Rhaid ystyried yr effaith gaiff creu agoriadau newydd, ac nid maint a swyddogaeth yr estyniadau yn unig.
- Yn arferol, bydd adeiladau traddodiadol wedi'u grwpio gyda'i gilydd oherwydd fod iddynt yr un swyddogaeth. Wrth addasu adeiladau yn nifer o unedau, dylid cadw'r cysylltiadau hyn.
- Ni ddylid cyflwyno unrhyw staciau simneiau, portsys na ffenestri dormer i mewn i unrhyw gynllun addasu.
- Dylid defnyddio ffenestri to o fath cadwraeth lle y bernir ei bod yn angenrheidiol cael agoriadau ychwanegol yn y to.

6.4 <u>iv. Cynnig, gan gynnwys y libart ynghlwm wrtho a'r gwasanaethau, ddim yn ymwthio'n annymunol i'r tirlun nac yn amharu ar brydferthwch y cyffiniau.</u>

- Rhaid cadw maint unrhyw gwrtil i'r lleiaf fydd ei angen ar gyfer byw yn yr eiddo gan ddilyn waliau terfyn a gwrychoedd sefydlog.
- Dylid cadw waliau terfyn, gwrychoedd a choed lle bynnag bo hynny'n bosibl.
- Mae adeiladau fferm yn arferol yn hollol ymarferol o ran eu hedrychiad. Felly, mae arwynebau syml fel graean neu gerrig rhydd fel arfer yn fwy priodol na gorffeniadau ffurfiol fel cerrig palmant a chyrbiau concrid.
- Rhaid osgoi wynebau caled lle nad oedd rhai yn bodoli cyn hynny.

- Rhaid i liw y deunydd wynebu fod yn debyg i'r rhai a welir yn yr amgylchedd adeiledig o gwmpas.
- Rhaid cael cydbwysedd rhwng tirlunio caled a meddal o fewn cwrtil adeiladau fydd yn cael eu haddasu.
- Rhaid rhoddi ystyriaeth ofalus i leoliad offer allanol fel storfeydd gwastraff a leiniau dillad. Mae'n hanfodol bod eitemau o'r fath yn cael eu lleoli ar wahân o fewn y cwrtil fel nad ydynt yn tynnu oddi wrth nodweddion esthetaidd yr adeilad.
- Rhaid i unrhyw waith trin ar y terfynau newydd ac arfaethedig barchu ac adlewyrchu'r arferion lleol fel waliau cerrig, ffensys coed ac/neu gloddiau.

6.5 <u>v. Darpariaeth ar gyfer mynedfa, cyfleusterau parcio, llecyn agored a threfniadau carthffosiaeth i gyd yn foddhaol.</u>

- Yn ddelfrydol, fe ddylid lleoli garejys mewn adeiladau allanol sy'n bodoli ar y safle. Mewn achosion lle nad oes strwythurau ychwanegol ar gael, rhaid adeiladu garejys newydd (os bydd eu hangen) gan ddefnyddio deunyddiau tebyg i'r prif adeiladau a rhaid iddynt fod yn eilradd o ran ffurf a safle i'r llefydd byw.
- Dylai'r cyfleusterau parcio fod yn unol â Chyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor 'Safonau Parcio' (2008). Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i leoli a dylunio'r mannau parcio ceir sy'n gysylltiedig â gwaith addasu.
- Dylid gallu mynd i mewn ac allan yn hawdd i safleoedd sy'n destun cynlluniau addasu.
- Rhaid cynnwys manylion am y trefniadau carthffosiaeth gyda phob cais newydd.
- Lle bo cyfle i wella'r trefniadau dwr budr a dŵr wyneb presennol, fe ddylid annog hynny.

## 7.0 <u>Archwiliadau ac Arolygon Ecolegol</u>

7.1 Mae'n bwysig cynnal archwiliad ecolegol llawn a bod arolwg yn gynwysedig gyda phob cynnig i addasu adeiladau. Dylai'r arolwg gynnwys tystiolaeth bod ystlumod yn defnyddio'r adeiladau gan eu bod yn cael eu diogelu dan y gyfraith, ac os byddant yn bresennol, rhaid darparu manylion am fesurau lliniaru priodol ar gyfer yr holl safle gan gynnwys coed, ac nid yr adeilad yn unig.

7.2 Fe ddylai'r arolwg ddangos sut y bwriedir cynnwys nodweddion sy'n ystlum-gyfeillgar yn y cynllun. At hyn, pan fo adar yn nythu yn bresennol, efallai y bydd yn rhaid cyfyngu'r gwaith i amseroedd penodol yn y flwyddyn. Am wybodaeth bellach cysylltwch os gwelwch yn dda, gydag Ymgynghorydd Amgylcheddol ac Ecolegol y Cyngor.

## 8.0 <u>Dulliau a Deunyddiau Adeiladu wrth Addasu Adeiladau Traddodiadol</u>

8.1 Rhaid defnyddio dulliau a deunyddiau traddodiadol wrth addasu adeiladau traddodiadol oherwydd fod technegau adeiladu modern fel arfer yn cael eu hystyried fel rhai amhriodol ac mewn rhai achosion yn rhai all fod yn niweidiol i'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

8.2 Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o adeiladau traddodiadol yn defnyddio morter calch a phlaster. Felly, fe ddylai deunyddiau a ddefnyddir i drwsio neu i fod yn lle cerrig naturiol fod yn rhai o nodweddion tebyg.

8.3 Mae gwaith pwyntio sment yn galed, ac nid yw'n ddigon gwydyn ac nid yw'n dda iawn am amsugno. Fe all defnyddio deunyddiau o'r fath mewn adeilad traddodiadol achosi hindreulio cyflym iawn ac fe ddylid ei osgoi.

8.4 Fe ellir cael gwybodaeth bellach am ddulliau a deunyddiau adeiladu traddodiadol ar wefannau CADW a Chadwraeth Adeiladu, sydd wedi'u cynnwys yn yr adran 'Cysylltiadau'.

8.5 Rhaid pwysleisio nad oes unrhyw gysylltiad rhwng y gwefannau hyn a chyhoeddi'r ddogfen hon.

## 9.0 <u>Ymgynghori cyn gwneud Cais</u>

9.1 Cyn cyflwyno cais i addasu adeilad, argymhellir yn gryf eich bod yn cael sgwrs ymgynghorol cyn cyflwyno'r cais gyda Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor i drafod unrhyw broblemau posibl all godi.

## 10.0 Siecio

- Sieciwch a yw'r safle wedi'i leoli o fewn unrhyw ddynodiadau amgylcheddol neu ddynodiad tirwedd e.e. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- Dylid cyfeirio at nodiadau cyfarwyddyd eraill yn y gyfres CCA 'Cyfarwyddyd Dylunio' ar faterion fel dylunio cynaliadwy a thirlunio.

## 11.0 Cysylltiadau

11.1 Mudiadau annibynnol yw'r cysylltiadau a roddir yma, heb unrhyw gyswllt o gwbl gyda'r ddogfen hon. Bwriad y rhestr yw bod yn gymorth i rai fydd yn chwilio am wybodaeth bellach ar y materion dylunio geir yn y CCA hwn.

| | | |
|---|---|---|
| Amgylchedd Adeiledig | - | www.anglesey.gov.uk |
| Cadwraeth Adeiladu | - | www.buildingconservation.com |
| Cadw | - | www.cadw.wales.gov.uk |

## 12.0 Darllen Pellach

| | | |
|---|---|---|
| Cadw | - | Capeli yng Nghymru – Cadwraeth ac Addasu |
| Cadw | - | Addasu Adeiladau Fferm Hanesyddol: Cyfarwyddyd ar Arfer Dda |